| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 11 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | Cyfarwyddyd Erthygl 4 |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023 – 2028 – Gwynedd Glyd |
| **AWDUR** | Gareth Jones – Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd<br>Iwan Evans - Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Craig ab Iago |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Craffwyd adroddiad ar ymgysylltu cyhoeddus ar gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r newid defnydd o gartrefi i ail gartrefi neu lety gwyliau tymor byr yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mai 2024. Cadarnhaodd y Cabinet y cyfarwyddyd ar 16 Gorffennaf 2024. Fe ddaeth y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol ar 1 Medi 2024.

1.2 O ganlyniad i adolygiad barnwrol a fu'n llwyddiannus, cafodd y cyfarwyddyd ei ddiddymu gan yr Uchel Lys yn 2025, sy'n golygu nad yw'r cyfarwyddyd yn weithredol bellach.

1.3 Bydd craffu'r sefyllfa o ran y cyfarwyddyd sydd bellach wedi ei ddiddymu gan gynnwys y cefndir cyfreithiol yn ogystal â'r camau nesaf yn fodd i'r Pwyllgor sicrhau bod yr holl faterion ynghlwm â'r mater yn cael ystyriaeth lawn.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

- Y broses benderfynu ar gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 **(paragraff 4.5 – 4.13)**
- Y cefndir cyfreithiol **(paragraff 4.14- 4.32)**
- Beth sydd wedi ei ddysgu? **(paragraff 4.42 – 4.44)**
- Beth yw'r camau nesaf? **(Rhan 5)**

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth gefndirol a chyd-destunol perthnasol er mwyn galluogi craffu hanfodol ar y prosesau statudol a ymgymerwyd yn gysylltiedig â chyflwyno a chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4.

3.2 Amlinellir natur a chwmpas yr her gyfreithiol a gyflwynwyd yn dilyn penderfyniad y Cabinet i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, gan gynnwys rhoi trosolwg o'r seiliau cyfreithiol yn gysylltiedig â'r her. Ymhellach, fe gyflwynir gwybodaeth a dadansoddiad manylach yng nghyswllt y sail a oedd yn destun yr her gyfreithiol lwyddiannus sef yr egwyddor o newid defnydd materol.

## 4 Cefndir

4.1 Rhwng haf 2023 a haf 2024, bu i Gyngor Gwynedd weithredu ar y camau gofynnol i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Pwrpas y Cyfarwyddyd Erthygl 4 oedd diddymu hawliau datblygiad a ganiateir (permitted development rights) i newid defnydd o ddosbarth tŷ preswyl (defnydd C3) i ddefnydd gwyliau, boed hynny yn ddefnydd fel ail gartref (dosbarth defnydd C5), llety gwyliau tymor byr (dosbarth defnydd C6) neu yn ddefnydd cymysg o'r dosbarthiadau hyn (dosbarth defnydd C3, C5 ac C6).

4.2 Cynhaliwyd cyfnod ymgysylltu cyhoeddus yn gysylltiedig â Rhybudd Cyfarwyddyd Erthygl 4 rhwng 2 Awst ac 13 Medi 2023. Roedd cynnal y cyfnod ymgysylltu yn ofyn statudol a osodir yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 2022 (fel y diwygiwyd). Yn dilyn rhoddi ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu, penderfynodd Gabinet Cyngor Gwynedd i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar 16 Gorffennaf 2024, gyda'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod yn weithredol o 1 Medi 2024 ymlaen

4.3 Yn dilyn y penderfyniad gan y Cabinet i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, cyflwynwyd cais i'r Uchel Lys i herio'r penderfyniad drwy Adolygiad Barnwrol. Rhoddwyd caniatâd i gynnal yr Adolygiad Barnwrol, a chynhaliwyd y gwrandawiad ar 23 Mehefin 2025. Derbyniwyd y dyfarniad ffurfiol mewn perthynas â'r Adolygiad Barnwrol ar 27 Tachwedd 2025. Canlyniad y dyfarniad oedd diddymu penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd (16 Gorffennaf 2024) i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4.

4.4 Gwrthodwyd cais llafar y Cyngor a gyflwynwyd i'r barnwr yr achos am ganiatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad, ac o ganlyniad paratowyd cais ysgrifenedig i apelio i'r Llys Apêl. Ar 6 Chwefror 2026, derbyniwyd dyfarniad gan y Llys Apêl yn gwrthod rhoi caniatâd i apelio. Yn sgil derbyn y dyfarniad hwn, daw gweithdrefnau'r achos cyfreithiol i ben, gan olygu nad yw'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 bellach yn weithredol o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

### Y broses benderfynu ar gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4

4.5 Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn rhagweithiol yn ei ymrwymiad i fynd i'r afael â'r sgil-effeithiau sydd yn deillio o gael nifer uchel neu grynodiad o ail gartrefi a/neu lety gwyliau hunanarlwyo o fewn rhai o gymunedau'r sir, fel a nodir o fewn maes blaenoriaeth Gwynedd Glyd yng Nghynllun y Cyngor.

4.6 Yn 2020 cyflwynwyd adroddiad a baratowyd ar gais Cabinet y Cyngor i Lywodraeth Cymru, yn gofyn am gyflwyno mesurau rheoleiddio o fewn y maes llety gwyliau ac ail gartrefi, gan gynnwys mecanwaith rheoli penodol o fewn y weithdrefn Gynllunio. Roedd y gwaith hwn yn amlygu ymrwymiad y Cyngor i ymateb i'r her ar lefel genedlaethol yn ogystal â lleol.

4.7 Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad hwn fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu dull dair elfen o fynd i'r afael a sgil effeithiau cartrefi gwyliau. Roedd y dull gweithredu hwn yn cynnwys newidiadau o ran y weithdrefn gynllunio a olygai cyflwyno dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau hunan arlwyo ac ail gartrefi.

4.8 Yn dilyn newidiadau deddfwriaethol i'r gyfundrefn Cynllunio yn Hydref 2022, daeth cyfle i weithredu mecanwaith cynllunio (Cyfarwyddyd Erthygl 4) a oedd yn galluogi'r Cyngor i ofyn am ganiatâd cynllunio cyn byddai'n bosib ymgymryd â ***newid defnydd materol*** o dŷ preswyl i ddefnydd llety gwyliau hunan arlwyo a/neu ail gartref.

4.9 Mae'r broses o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi ei osod yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 2022 fel y diwygiwyd[1]. Yn 2023, penderfynodd Gabinet Cyngor Gwynedd ddilyn y trywydd o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (nad yw'n dod i rym yn uniongyrchol) gan olygu'r angen i gyflwyno rhybudd 12 mis cyn gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4.

4.10 Yn unol â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol, yn dilyn gosod rhybudd o'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 a chynnal cyfnod ymgysylltu cysylltiedig, adroddwyd i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd ar 16 Gorffennaf 2024, gan ofyn iddynt ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus a chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 i fod yn weithredol o 1 Medi 2024 ymlaen.

4.11 Golygai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 fod yr hawliau datblygiad a ganiateir ar gyfer y **newidiadau defnydd materol** canlynol yn cael eu diddymu:

- Prif gartref (dosbarth defnydd C3) i ail gartref (dosbarth defnydd C5) neu lety gwyliau tymor byr (dosbarth defnydd C6) a defnyddiau cymysg penodol;
- Ail gartref (dosbarth defnydd C5) i lety gwyliau tymor byr (dosbarth defnydd C6) a defnyddiau cymysg penodol;
- Llety gwyliau tymor byr (dosbarth defnydd C6) i ail gartref (dosbarth defnydd C5) a defnyddiau cymysg penodol.

4.12 Pe na fyddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi ei gyflwyno, fe fyddai'n bosib newid rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd heb yr angen i dderbyn caniatâd cynllunio gan y byddai'r newid defnydd yn hawl datblygu a ganiateir, sef y sefyllfa bresennol.

4.13 Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg cryno o'r camau yn gysylltiedig â chyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (sydd bellach wedi ei ddiddymu):-

| | **Eglurhad** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| **Cam 1:** | Casglu tystiolaeth a pharatoi papur cyfiawnhad | Diwedd 2022 hyd at Mai 2023 |
| **Cam 2:** | Cymeradwyo gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4, gosod rhybudd a chynnal cyfnod ymgysylltu cysylltiedig. | 23 Mehefin 2023 |
| **Cam 3** | Cynnal y cyfnod ymgysylltu cysylltiedig | 2 Awst 2023 i 13 Medi 2023 |
| **Cam 5** | Cadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 | 16 Gorffennaf 2024 |
| **Cam 6:** | Y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol | 1 Medi 2024 |

Tabl 1: Proses cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 a'r amserlen gysylltiedig

[1] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 2022 (fel y diwygiwyd)

### Y Cefndir Cyfreithiol

4.14 Amlygir y prif gamau yn gysylltiedig â'r her gyfreithiol isod;

| | Eglurhad | Dyddiad | Dogfennau perthnasol |
|---|---|---|---|
| **Cam 1:** | Llys yn derbyn cais ar gyfer cynnal Adolygiad Barnwrol o benderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br>5 sail ar gyfer yr her yn cael ei gyflwyno. | Awst 2024 | Dogfennau cefndirol, gweler atodiad 1a i 1ch |
| **Cam 2:** | Papurau'r cais ysgrifenedig ar gyfer Adolygiad Barnwrol yn cael **ei wrthod** | 7 Tachwedd 2024 | - |
| **Cam 3** | Gwrandawiad ar lafar ar y cais i gynnal Adolygiad Barnwrol | 17 Rhagfyr 2024 | - |
| **Cam 4** | **Caniatâd** yn cael ei roi i gynnal Adolygiad Barnwrol yn seiliedig **ar sail 1 yn unig**, 4 sail arall i'w ddiystyru | 27 Chwefror 2025 | Dyfarniad, gweler Atodiad 2 |
| **Cam 5:** | Gwrandawiad llawn (*Substantive Hearing*) yn cael ei gynnal. | 23 Mehefin 2025 | - |
| **Cam 6:** | Derbyn dyfarniad yn dilyn Gwrandawiad llawn(*Subsantive Hearing*) | 24 Medi 2025 | Dyfarniad, gweler Atodiad 3 |
| **Cam 7:** | Derbyn Gorchymyn gan yr Uchel Lys yn diddymu penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd (16 Gorffennaf 2024) i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. | 27 Tachwedd 2025 | - |
| **Cam 8:** | Cyngor Gwynedd yn gwneud cais i'r Llys Apêl i apelio penderfyniad yr Uchel Lys | 18 Rhagfyr 2025 | |
| **Cam 9:** | Derbyn penderfyniad Llys Apêl yn gwrthod cais ysgrifenedig i apelio penderfyniad yr Uchel Lys. | 6 Chwefror 2026 | - |

Tabl 2: Camau'r her gyfreithiol

4.15 Fel sydd wedi amlygu yn y tabl uchod, yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 16 Gorffennaf 2024 yn cadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, cyflwynwyd cais i'r llys gan Enlli Angharad Williams (yr hawlydd) i gynnal adolygiad barnwrol o'r penderfyniad i'w gadarnhau **(Cam 1).**

4.16 Wrth gyflwyno cais i gynnal adolygiad barnwrol, mae'n ofynnol i'r hawlydd dderbyn caniatâd y llys i barhau gyda'r cais. Roedd y cais gwreiddiol i gynnal adolygiad barnwrol yn dadlau pum sail. Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am y seiliau yn y dyfarniad (Atodiad 2), mae crynodeb ohonynt fel a chanlyn: -

**Sail 1: Bod y Cyngor wedi camddeall y newidiadau i'r weithdrefn gynllunio yn 2022 ac wedi methu ystyried y posibilrwydd ar gyfer cartrefi gwyliau newydd (boed yn nosbarth C5 neu ddosbarth C6) er gwaethaf y cyfarwyddyd.**

Sail 2: Cafodd y cyngor ei gamgyfeirio am neu gamddeall effaith y cyfarwyddyd ar ddarparu tai fforddiadwy.

Sail 3: Yn anghyfreithlon fe fethodd y cyngor ag ystyried y polisi cynllunio perthnasol o hyrwyddo a chefnogi llety gwyliau.

Sail 4: Methodd y cyngor ag ystyried tystiolaeth ynglŷn â'r defnydd presennol o'r Gymraeg.

Sail 5: Bod y Cyngor wedi camddehongli polisi cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i brofi amgylchiadau eithriadol wrth gyfiawnhau diddymu hawliau datblygu cyffredinol a ganiateir

4.17 Bu i farnwr (Eich Mawrhydi Barnwr Jarman KC) ystyried y cais ysgrifenedig ar 7 Tachwedd 2024 a gwrthodwyd caniatâd i barhau ar y pump sail (**Cam 2**). Gweithredodd yr hawlydd ei hawl i wneud cais i ailystyried ei chais ar lafar. Cynhaliwyd gwrandawiad (llafar) gan y Gwir Anrhydeddus Mr Ustus Pepperall ar 17 Rhagfyr 2024 (**Cam 3** ) gyda'r dyfarniad yn cael ei dderbyn ar 27 Chwefror 2025 (Atodiad 2). Rhoddwyd caniatâd gan yr Anrhedus Mr Ustus Pepperall i gynnal adolygiad barnwrol ar **Sail 1 yn unig** (gweler uchod), gyda gweddill y seiliau yn cael eu diystyru (**Cam 4).**

4.18 Prif ddadl sail 1 yw bod y Cyngor wedi methu â gwerthfawrogi mai dim ond ar gyfer ***newidiadau defnydd materol*** y mae angen caniatâd cynllunio a, felly, ni fyddai'n cael yr effaith o atal pob newid defnydd oedd wedi'u diddymu gan y Cyfarwyddyd Erthygl 4.

4.19 Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi sail 1 ar ran yr hawlydd yn cynnwys:

- Adroddiad Cabinet (cyfarfod 16 Gorffennaf 2024) (gweler atodiad 1a).
- Adroddiad Ymgysylltu Cyhoeddus (gweler atodiad 1b)
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb (gweler atodiad 1c), a
- Y rhybudd Cyhoeddus (Drafft) (gweler atodiad 1ch).

4.20 Dadleuwyd fod yr arweiniad yn y dogfennau hyn yn anghywir neu yn gamarweiniol mewn perthynas ag adran 55 ac adran 57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan mai dim ond ar gyfer ***newidiadau defnydd materol****, ac* nid o reidrwydd pob newidiad defnydd y mae angen caniatâd cynllunio. Gan hynny ni fyddai posib i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 atal pob newid defnydd rhwng y dosbarthiadau defnydd perthnasol fel, roedd yr hawlydd yn ei honni, oedd y Cyngor wedi ei gredu.

4.21 Yn ei ddyfarniad a rhoddwyd yr hawl i ymgymryd â'r her gyfreithiol (gweler Atodiad 2), cyfeiriwyd y barnwr at achos Moore v. Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol [2012], sydd yn cynnwys gwybodaeth o ran yr ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu a yw newid defnydd prif fan preswyl (dosbarth defnydd C3) i ddefnydd llety tymor byr yn newid defnydd materol ac felly angen caniatâd cynllunio. Nodi'r achos hwn (Saesneg yn unig):

*"Starting from first principles, without the assistance of any authority, whether the use of a dwellinghouse for commercial letting as holiday accommodation amounts to a material change of use will be a question of fact and degree in each case, and the answer will depend upon the particular characteristics of the use as holiday accommodation. Neither of the two extreme propositions - that using a dwellinghouse for commercial holiday lettings will always amount to a material change of use, or that use of a dwellinghouse for commercial holiday lettings can never amount to a change of use - is correct."*

4.22 Derbyniodd y Barnwr (Yr Anrhydeddus Mr Ustus Pepperall) efallai nad yw'r newidiadau i ddeddfwriaeth gynllunio yn 2022 yn rheoli newidiadau defnydd yn llwyr o C3 neu C5 i C6 nac i ddefnydd cymysg gan fod materoldeb (*materiality*) yn fater o ffaith a graddfa a daethpwyd i'r casgliad ei fod yn *"…properly arguable that the Cabinet was misled as to the law and therefore as to the efficacy of the Direction".*

4.23 Cynhaliwyd gwrandawiad llafar llawn (substantive hearing) yn yr Uchel Lys **(Cam 5)** o flaen Yr Anrhydeddus Mr Ustus Eyre ar 23 Mehefin 2025. Derbyniwyd y dyfarniad yn gysylltiedig â'r achos ar 24 Medi 2025 (gweler Atodiad 3).

4.24 Yn ystod gwrandawiad dilynol ar 27 Tachwedd 2025 ac yn dilyn ei ddyfarniad blaenorol, gwnaeth y barnwr (Ustus Eyre) orchymyn i ddiddymu penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd ar 16 Gorffennaf 2024 i gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4.

**Casgliadau dyfarniad 25 Medi 2025 (Atodiad 3)**

4.25 Amlygodd y barnwr (Ustus Eyre) yn ei ddyfarniad i ddiddymu penderfyniad y Cabinet i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl mai prif ystyriaeth yr achos oedd, a oedd yr aelodau a wnaeth y penderfyniad i gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 (sef y Cabinet) wedi cael eu camarwain yn arwyddocaol ar faterion a allai fod wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i'r fath raddau fel y byddai'n bosib bod y penderfyniad wedi bod yn wahanol oni bai am yr arweiniad hwnnw.

4.26 Roedd y dyfarniad yn darparu dadansoddiad manwl o'r diffiniad cyfreithiol o ddatblygiad, ynghyd â'r ystyriaethau perthnasol sy'n codi mewn perthynas â newid defnydd materol.

4.27 Ystyriodd y Barnwr (Ustus Eyre) na fyddai'n rhesymol disgwyl i aelodau o'r Cabinet feddu ar yr un lefel o ddealltwriaeth o'r weithdrefn gynllunio o'i gymharu â aelodau'r Pwyllgor Cynllunio er enghraifft. O ganlyniad, nid oes posib cymryd yn ganiataol bod gan aelodau'r Cabinet ddealltwriaeth o'r cysyniad o fateroldeb (materiality) yng nghyd-destun newid defnydd materol, oni bai bod y mater hwnnw wedi'i esbonio iddynt yn glir ac yn benodol. Ymhellach cwestiynir pe byddai aelodau o'r Cabinet wedi darllen yr holl ddeunydd a gyflwynwyd iddynt yn drylwyr gan ystyried y pwysau ar ei hamser. Nodwyd nad oedd angen i'r aelodau gael dealltwriaeth drylwyr, fodd bynnag fe fyddai disgwyl iddynt wybod beth oedd natur ac effaith y penderfyniad a oedd yn cael ei wneud, gan olygu'r angen i'w hatgoffa mewn termau syml o effaith y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ymarferol yng nghyswllt y newidiadau defnydd fyddai'n cael ei effeithio ai pheidio.

4.28 Yn dilyn adolygu'r dogfennau a gyflwynwyd i'r Cabinet, bu i'r barnwr (Ustus Eyre) ganfu fod y ddogfennaeth a gyflwynwyd yn awgrymu'n gryf y byddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn rheoli pob newid defnydd, ymhellach cyfeiriwyd at y ffaith fod yr unig gyfeiriad tuag at newid defnydd materol oedd i'w gael yn yr Adroddiad Ymgysylltu o dan bennawd 34 a oedd tuag at ddiwedd y ddogfen.

4.29 Yr hyn oedd gofyn i'r barnwr ei ystyried oedd a fyddai'n **debygol iawn (*highly likely*)** y byddai'r Cabinet wedi gwneud penderfyniad gwahanol. Roedd y Barnwr yn derbyn ei fod yn **debygol** (*likely*) na fyddai penderfyniad y Cabinet wedi bod yn wahanol pe byddai yr adroddiad wedi esbonio y pwynt ynglŷn a newid defnydd materol. Fodd bynnag nid oedd y Barnwr yn ystyried ei fod yn **debygol iawn (*highly likely*).**

4.30 Daethpwyd i'r casgliad fod aelodau'r Cabinet wedi cael eu camarwain yn arwyddocaol a chan hynny, mewn gwrandawiad dilynol ar 27 Tachwedd 2026 gorchmynnwyd fod y penderfyniad i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei diddymu.

**Camau cyfreithiol dilynol cais y Cyngor i apelio'r penderfyniad**

4.31 Bu i'r Cyngor wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i apelio'r penderfyniad i'r Llys Apêl yn seiliedig ar ddau sail **(Cam 8),** gwrthodwyd y cais hynny gan y Gwir Anrhydeddus Ustus Lewisam ar 6 Chwefror 2026 **(Cam 9).** Canfu'r Barnwr fod disgwyl i adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cabinet fod wedi egluro'n llawn golygiadau'r penderfyniad a hefyd canfu er ei fod yn **debygol** (likely) y byddai'r Cabinet wedi gwneud yr un penderfyniad, nad oedd yn **debygol iawn** (highly likley).

4.32 Yn dilyn y dyfarniad i wrthod rhoi caniatâd i apelio'r penderfyniad, fe ddaeth y gweithdrefnau cyfreithiol ynghlwm a'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ben, gan olygu fod y Cyfarwyddyd Erthygl 4 a gadarnhawyd gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 16 Gorffennaf 2026 wedi ei ddiddymu'n derfynol, ac o ganlyniad nid yw'n weithredol ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.

**Beth yw 'Newid Defnydd Materol'?**

4.33 Fel amlygwyd uchod roedd yr her gyfreithiol lwyddiannus yn seiliedig ar yr honiad nad oedd y dogfennau cefndirol (atodiad 1a i 1ch) yn egluro mai ar gyfer ***newidiadau defnydd materol*** yn unig y byddai angen derbyn caniatâd cynllunio yn dilyn gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4.

4.34 Mae rhaid derbyn caniatâd cynllunio i ymgymryd â datblygiad. Mae'r diffiniad o 'ddatblygiad' wedi ei osod yn adran 55 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (DCGTh) ac yn cynnwys ymgymryd â newid defnydd materol.

4.35 Mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (UCO)2, fel y'i diwygiwyd, yn gosod defnyddiau o dir ac adeiladau mewn gwahanol gategorïau a elwir yn 'ddosbarthiadau defnydd'. Nid yw newidiadau defnydd o fewn dosbarth defnydd penodol yn ddatblygiad ac felly nid oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer.

4.36 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y GPDO)3 yn caniatáu rhai newidiadau defnydd penodol rhwng y dosbarthiadau defnydd penodedig (hawl datblygu a ganiateir). Hawl datblygu a ganiateir yw datblygiad y gellir ei ymgymryd heb yr angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio, gan ei fod eisoes wedi'i gymhwyso o fewn y GDCG (GPDO). Gan eithrio'r newidiadau cyffredinol a ganiateir o fewn y GDCG, yn gyffredinol bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer newidiadau defnydd materol arall rhwng y dosbarthiadau defnydd penodedig.

---

[2] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 2022 (fel y diwygiwyd)

[3] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 2022 (fel y'i diwygwyd)

4.37 Nid yw'r hyn a ddiffinnir fel ***newid defnydd materol*** wedi ei ddiffinio. Mae penderfynu a oes newid defnydd materol wedi digwydd, ac felly'r angen i dderbyn caniatâd cynllunio, yn fater o ffaith a graddfa i'r awdurdod cynllunio perthnasol ei ystyried fesul achos. Ymhlith y ffactorau sydd yn debygol o fod yn berthnasol wrth benderfynu a yw datblygiad arfaethedig (llety gwyliau/ail gartref yn benodol) yn golygu ***newid defnydd materol*** yw amlder, graddfa neu ddwysedd y defnydd.

4.38 Defnyddir yr ymadrodd "newid defnydd" yn aml fel ffurf law-fer ar gyfer "newid defnydd materol", gan gynnwys mewn deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol. Gan hynny, ni ystyriwyd fod yna unrhyw beth anarferol na chamarweiniol am ddefnyddio'r ymadrodd newid defnydd yn hytrach na newid defnydd materol wrth gyflwyno gwybodaeth gefndirol yn gysylltiedig â chyfiawnhau cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. Er enghraifft mae'r ddeddfwriaeth sydd yn rhoddi'r hawl datblygu a ganiateir i newid rhwng y dosbarthiadau defnydd hyn sef Dosbarth I o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y GPDO) yn cyfeirio at "newid defnydd" yn hytrach na "newid defnydd materol" (Saesneg yn unig):

> *"Class I*
> ***I. Permitted development***
> *Development consisting of a change of use of a building—*

4.39 Ymhellach wrth gyfeirio at yr egwyddor o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, fe nodai Polisi Cynllunio Cymru fel a chanlyn:-

*4.2.10 Lle bo tystiolaeth leol gadarn wedi nodi bod ail gartrefi a llety gosod tymor byr yn effeithio ar y gymuned, gallai awdurdodau cynllunio ystyried dulliau cynllunio lleol cydgysylltiedig. Gallai hynny gynnwys enwi'n benodol safleoedd mewn cynlluniau datblygu ar gyfer cartrefi newydd y cyfyngir eu defnydd i fod yn brif neu unig breswylfa neu i'r farchnad dai lleol (gweler paragraff 4.2.9) a/neu gyflwyno cyfarwyddiadau Erthygl 4 mewn ardal benodol lle byddai gofyn am gais cynllunio i* ***newid defnydd*** [pwyslais wedi ei ychwanegu] *prif neu unig breswylfa i fod yn ail gartref neu lety gosod tymor byr. Ar gyfer yr ardal y mae cyfarwyddyd Erthygl 4 yn effeithio arni, dylid gosod cyfyngiadau trwy amod neu rwymedigaeth ar bob cartref newydd, yn cyfyngu ei ddefnydd i fod yn brif neu unig breswylfa. Ceir rhagor o gyngor ar ddefnyddio cyfarwyddiadau Erthygl 4 ac amodau a rhwymedigaethau cynllunio yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu.*

4.40 Nodir ymhellach fod yr Adroddiad Ymgysylltu a gyflwynwyd i'r Cabinet er mwyn eu cynorthwyo i wneud eu penderfyniad yn gysylltiedig â chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cynnwys eglurhad o bryd y byddai rhaid derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer ymgymryd â newidiadau defnydd materol. A hynny'n benodol wrth ymateb i sylw a dderbyniwyd (Themâu 34) yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus a oedd yn ymwneud a 'Effaith y Cyfarwyddyd Erthygl 4'. Ystyriwyd fod y detholiad hwn yn profi dealltwriaeth swyddogion mewn perthynas â materoldeb yn ogystal â darparu eglurhad i'r Cabinet yn ystod y broses cadarnhau.

**Yr egwyddor o newid defnydd materol yn ymarferol**

4.41 Er mwyn sicrhau fod yna ddealltwriaeth o'r hyn sydd yn gyfystyr a newid defnydd materol a pryd byddai angen derbyn caniatâd cynllunio ai pheidio mae rhai enghreifftiau ymarferol wedi cael ei ddarparu isod. Pwysleisir y byddai rhaid ymdrin â phob achos yn unigol ac yn seiliedig ar ei rinweddau ei hun a'r ffeithiau cysylltiedig.

**Enghraifft 1:** Defnyddio eiddo a ddefnyddir yn bresennol fel prif fan preswyl (C3) i ddefnydd llety gwyliau tymor byr (C6) am benwythnos ar sail un tro oherwydd digwyddiad lleol.
**Arweiniad:** Ddim yn debygol o fod yn newid defnydd materol gan mai un-tro yn unig fyddai'r defnydd. Unrhyw aflonyddwch yn gyfyngedig i gyfnod byr yn unig.

**Enghraifft 2:** Defnyddio tŷ preswyl (dosbarth defnydd C3) i ddefnydd llety gwyliau tymor byr (C6) yn rheolaidd) heb unrhyw ddefnydd arall yn y cyfamser).
**Arweiniad:** Oherwydd yr amlder, dwysedd y defnydd a bwriad hirdymor, ystyrir y byddai'r math hyn o ddefnydd yn newid defnydd materol ac y byddai angen derbyn caniatâd cynllunio er mwyn ymgymryd â'r defnydd.

**Enghraifft 3:** Defnyddio tŷ preswyl (Dosbarth defnydd C3) fel ail gartref (dosbarth defnydd C5) ar gyfer defnydd achlysurol teulu ble fo'i brif fan preswyl mewn cartref arall.
**Arweiniad:** Newid defnydd hyn yn debygol o fod yn newid defnydd materol gan ei fod yn newid parhaol a gan na fyddai'r uned breswyl bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer defnydd prif fan preswyl

**Beth sydd wedi ei ddysgu?**

4.42 Fel amlygir ym mharagraffau 4.8 – 4. 10 yn dilyn cynnal diwygiadau i'r deddfwriaethau perthnasol, Cyngor Gwynedd oedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyntaf i weithredu ar y newidiadau drwy gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Er fod yna arweiniad o ran y broses gofynnol yn gysylltiedig a pharatoi a chymeradwyo Cyfarwyddyd Erthygl 4, mae yna ddiffyg canllawiau manwl o ran tystiolaeth a ddylid ei gasglu er mwyn cyfiawnhau cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, yn enwedig o ystyried yr ardal daearyddol eang berthnasol.

4.43 Ar bob cam o'r broses, amlygwyd y risgiau yn gysylltiedig â bod y cyntaf i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol, gan gynnwys y risg o her gyfreithiol. Ystyrir fod y risgiau hyn wedi cael ei rheoli trwy gydol y broses cyn belled a bod modd.

4.44 Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu a meithrin sgiliau ac arbenigedd penodol o fewn y maes gwaith hyn, ac yn sgil hynny wedi gallu rhannu profiadau a dogfennaeth gyda awdurdodau eraill gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri. Roedd rhannu adnoddau, tystiolaeth cefndirol a gwersi efo Awdurdodau eraill yn rhan o'r termau a wnaed gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer eu cefnogaeth ariannol. Mae'r sgiliau a arbenigedd sydd wedi ei feithrin drwy'r broses o baratoi'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi bod yn eithriadol o ddefnyddiol, ac yn sgiliau y gellir ei drosglwyddo i brosiectau eraill perthnasol yn y dyfodol.

**Faint mae Erthygl 4 wedi costio i'r Cyngor hyd yma? Sut mae'r gost wedi ei ariannu?**

4.45 Yn anorfod, bu costau ariannol a phwysau ar adnoddau staff ynghlwm a'r broses o gyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. Ystyriwyd y goblygiadau adnoddau (ariannol a staffio) hyn yn ofalus fel rhan o'r trafodaethau cychwynnol cyn penderfynu bwrw ymlaen â'i baratoi. Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor adnoddau digonol i baratoi a gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn llwyddiannus, llwyddwyd i sicrhau grant o £402,330 gan Lywodraeth Cymru, gyda'r Cyngor yn cyfrannu swm cyfatebol o £400,000 drwy gyllid refeniw un-tro.

4.46 Ers Ebrill 2023, mae'r broses wedi costio cyfanswm o £465,654.63 hyd yma, wedi'i ariannu fel a ganlyn:

- £311,683.05 wedi'i ariannu drwy Grant Erthygl 4 Llywodraeth Cymru
- £153,971.58 wedi'i ariannu drwy gyllid refeniw un-tro'r Cyngor

O ganlyniad, mae swm o £336,675.37 yn weddill yn y gronfa ar hyn o bryd.

4.47 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi cynnwys gwariant ar staffio (£325,618.94), gweinyddu'r broses (£59,961.69), a chostau Cyfreithiol (£80,074.00).

4.48 Pwysleisir bod y cyllid hwn wedi bod yn fuddsoddiad sydd wedi cyfrannu at ddatblygu dealltwriaeth y Cyngor o'r camau yn gysylltiedig â gweithredu'r broses o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Yn ogystal, mae wedi arwain at greu fframwaith ymarferol (gan gynnwys templedi adroddiadau, rhybuddion cyhoeddus, llythyrau ac ati) y gellir ei addasu a'i ailddefnyddio yn y dyfodol.

## 5. Camau nesaf

5.1 Yn dilyn penderfyniad y Llys Apêl i wrthod rhoi caniatâd i apelio dyfarniad yr Uchel Lys, bydd angen rhoi ystyriaeth gofalus i'r opsiynau gweithredu posib ar gyfer y dyfodol. Wrth wneud hynny, rhaid cadw mewn cof ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael a'r argyfwng tai sydd yn wynebu'r sir, yr angen i warchod cymunedau Gwynedd a sicrhau fod trigolion Gwynedd yn cael cyfle teg i fyw yn y sir. Yn y cyfamser, bydd hefyd angen i'r Cyngor ystyried newidiadau cyd-destunol yn y cyfamser sy'n berthnasol i'r maes ail-gartrefi a llety gwyliau megis newidiadau yn y fframwaith drethiannol, Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) a'r Ardoll Ymwelwyr.

5.2 Dylid nodi hefyd fod newid mewn Llywodraeth wedi bod, gyda blaenoriaethau Plaid Cymru yn cynnwys, *adolygu effeithiolrwydd y mesurau presennol ar ail gartrefi a llety gwyliau*. Bydd angen i'r Cyngor cadw golwg agos ar datblygiadau yn y maes hwn. Yn ogystal mae Cynllun y Cyngor yn parhau i gynnwys rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr fel blaenoriaeth.

5.3 Fel y nodwyd, mae sicrhau rheolaeth yn y maes hwn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae nifer o newidiadau cyd-destunol angen ystyriaeth bellach cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar y ffordd ymlaen. Oherwydd yr angen i roi ystyriaeth lawn i'r materion a nodir uchod, ac er mwyn osgoi'r risg o ildio braint gyfreithiol, mae'n gynamserol cadarnhau unrhyw amserlen ar gyfer y camau nesaf ar hyn o bryd.

5.4 Pwysleisir, er gwaethaf yr heriau a'r siom yn gysylltiedig â'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 sydd wedi ei ddiddymu, mae angen dal sylw hefyd nad oedd yr her gyfreithiol wedi derbyn caniatâd yn seiliedig ar unrhyw fethiant sylfaenol yn gysylltiedig â'r broses o'i baratoi a'r cyfiawnhad ar ei gyfer.

## 6. Cwestiynau ychwanegol

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y cyfarwyddyd a oedd yn weithredol yng Ngwynedd a'r cyfarwyddyd sydd yn weithredol yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri?

    Mae'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 sydd wedi ei baratoi a'i gymeradwyo gan Gyngor Gwynedd yn berthnasol i Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig.

Mae'r Hawliau Datblygu a Ganiateir sydd wedi ei ddiddymu o fewn Cyfarwyddyd Erthygl 4 Parc Cenedlaethol Eryri yn cyd-fynd a rhai a ddiddymwyd gan Gyngor Gwynedd.

- Pa wahaniaeth / tebygrwydd oedd o ran y broses benderfynu gan y Cyngor a'r Parc?

  Mae'r broses yn gysylltiedig a phenderfynu a chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi ei wneud yn unol a threfniadau cyfansoddiadol Cyngor Gwynedd.

  Cychwynnodd Parc Cenedlaethol Eryri y broses o baratoi Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar ôl Cyngor Gwynedd, a olygai eu bod wedi manteisio ar ddarpariaeth adroddiadau Cyngor Gwynedd gan gynnwys yr hyn a fu'n sail i'r her gyfreithiol.

- Faint mae Erthygl 4 wedi costio i'r Cyngor hyd yma? Sut mae'r gost wedi ei ariannu?

  Gweler paragraff 4.45 – 4.48

- Pa ystyriaethau rhoddwyd sylw iddynt wrth ddod i gasgliad ar y camau nesaf?

  Gweler Rhan 5

- Beth yw'r amserlen?

  Yn unol a'r materion sydd wedi eu gosod allan yn rhan 5 mae hyn i'w benderfynu.

- Beth yw'r bwriad o ran ymgysylltu a chael barn y cyhoedd?

  Mi fydd yn hyn cael ei wneud yn unol a'r gofynion statudol

- Er mwyn chwalu mythau a sicrhau gwybodaeth gywir, a oes bwriad i gynnwys atebion i wrthwynebiadau gan y cyhoedd e.e. effaith ar werth eiddo, fel rhan o'r ymgysylltu?

  Bydd unrhyw ymgysylltu yn cael ei wneud yn unol a'r gofynion statudol. Yn ystod y broses o ymgysylltu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 sydd bellach wedi ei ddiddymu, fe adroddwyd ar yr holl sylwadau a dderbyniwyd o fewn Adroddiad Ymgysylltu cynhwysfawr. Roedd yr adroddiad yma yn cynnwys ymatebion manwl y Cyngor i'r sylwadau hynny. (Gweler atodiad 1b).

## 7. Ymgynghori

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad yma. Pwysleisir fod ymgysylltu helaeth wedi ei gynnal fel rhan o'r broses o paratoi a chymeradwyo y Cyfarwyddyd Erthygl 4 (sydd bellach wedi ei ddiddymu) ac mae'r adroddiad Ymgysylltu Cyhoeddus cafodd ei baratoi yn dilyn y cyfnod ymgysylltu i'w weld yn Atodiad 1b.

## 8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad yma. Fodd bynnag cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ystyriaeth lawn wrth lunio a chyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4.Gweler Adroddiad Cabinet Atodiad 1a

## 9. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad yma. Fodd bynnag mae'r asesiad effaith cafodd ei baratoi fel rhan o gyflwyno'r cyfarwyddyd Erthygl 4 i'w weld yn Atodiad 1c

## 10. Beth fydd yn digwydd nesaf?

10.1 Mae'r camau nesaf yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach, gan fod yn ystyriol o newidiadau eraill perthnasol a all effeithio. Bydd trefniadau adrodd priodol yn cael ei gweithredu arnynt.

## Atodiadau

Atodiad 1: Gwybodaeth gefndirol

- Atodiad 1a: Adroddiad Cabinet (cyfarfod 16 Gorffennaf 2024)
- Atodiad 1b: Adroddiad Ymgysylltu Cyhoeddus
- Atodiad 1c: Asesiad Effaith Cydraddoldeb a
- Atodiad 1ch: Y rhybudd Cyhoeddus (Drafft)

Atodiad 2: Dyfarniad cais i gynnal Adolygiad Barnwrol (gwrandawiad llafar)

Atodiad 3: Dyfarniad yr Adolygiad Barnwrol (gwrandawiad sylweddol)